# Ein blaenoriaethau

Archwiliwch y gwahaniaeth y mae ein hariannu'n ei wneud, o fynd i'r afael â phroblemau hirsefydlog yn y sector i gefnogi prosiectau treftadaeth uchelgeisiol ac arloesol.

## Ein mentrau strategol

Drwy Treftadaeth 2033 rydym yn cymryd golwg tymor hwy, gan fuddsoddi mewn treftadaeth ar gyfer y dyfodol yn ogystal ag ar gyfer y presennol, mewn lleoedd, nid prosiectau unigol yn unig, i greu buddion ar gyfer pobl, cymunedau a'n hamgylchedd naturiol.

Rydym yn taclo problemau treftadaeth yn rhagweithiol ar raddfa fawr ac ar draws tiriogaethau, gan gyflymu syniadau newydd a mynd i'r afael â bylchau mewn cynigion sy'n dod i mewn drwy ein Grantiau Treftadaeth y Loteri Genedlaethol safonol.

- Lleoedd Treftadaeth: £200m ar gyfer trefi a dinasoedd sydd heb eu gwasanaethu'n ddigonol ar draws y DU
- Cysylltiadau Tirwedd: £150m ar gyfer y cefn gwlad a drysorir fwyaf yn y DU
- Trefi a Dinasoedd Natur: partneriaeth newydd a £15m o ariannu
- Mannau Addoli: achub treftadaeth mewn angen a mynd i'r afael â heriau yn y sector

## Ein heffaith a'n hetifeddiaeth

Archwiliwch ein rhaglenni a'n mentrau wedi'u targedu o'r gorffennol, y mae rhai ohonynt yn dal i gael eu cyflwyno.

- Cronfa Arloesedd Treftadaeth: ein rhaglen beilot i ddatrys heriau gweithlu
- Grantiau Treftadaeth Gorwelion: Rhaglen £50m sy'n cefnogi syniadau mawr ac yn datgloi posibiliadau
- Sgiliau Digidol ar gyfer Treftadaeth: ein menter codi hyder (2019-2024)
- Cefnogi Busnes a Datblygu Menter: ein hymgyrch adeiladu gallu a chydnerthedd (2020-2024)
- Casgliadau Dynamig: ein menter i ddatblygu cydnerthedd, hygyrchedd a chyfranogiad (2023–2024)
- Ardaloedd Ffocws: cefnogaeth wedi'i thargedu i wella mynediad at ariannu (2019–2024)

## Dweud eich dweud

Mae Calon Treftadaeth y DU yn brosiect ymchwil cydweithredol ar gyfer y sector treftadaeth sydd wedi'i ategu gan dair blynedd o ddata.

Mae'r wybodaeth rydych chi'n ei rhannu trwy ein harolygon rheolaidd yn helpu i ddylanwadu ar ein penderfyniadau a'n dulliau ariannu. Yn gyfnewid, byddwch yn derbyn diweddariadau gyda mewnwelediad gweithredadwy y gallwch ei ddefnyddio yn eich sefydliad.

Ymunwch â'n panel ymchwil.